



Seremonïau Gwobrwyo Dosbarth Graddio 2025

14 - 17 Gorffennaf 2025
Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Cynnwys

Llongyfarchiadau gan Ganghellor y Brifysgol	01	Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd	12
Dirprwy Ganghellor a'r Llywydd Anrhydeddus	02	Ysgol Dechnolegau Caerdydd	12
Croeso gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr y Brifysgol	03	Ysgol Reoli Caerdydd	12
Croeso gan Lywydd ac Is-Ganghellor y Brifysgol	05	Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd	16
Yr Orymdaith	06	Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd	18
Trefn y Seremoni	07	Cyn-fyfyrywyr	20
Cyflwyno'r Graddau	07	Eich camau nesaf	21
Cymrodoriaethau Anrhydeddus 2025	07	Diolch	22
	08		



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Llongyfarchiadau gan Ganghellor y Brifysgol

Fel Canghellor, rwy'n estyn llongyfarchiadau mawr ar sicrhau eich lle yn y seremoni heddiw.

Nid yw astudio ar lefel prifysgol yn hawdd, gyda llawer o heriau ar hyd y ffordd, ac mae eich llwyddiant yn ganlyniad o'ch gallu i fod yn benderfynol a'ch gwaith caled. Mae'r gymeradwyaeth heddiw wrth eich teulu, ffrindiau, cyd-raddedigion a staff Met Caerdydd yn rhoi sylw i'r cyflawniad hwnnw, ac yn nodi dechrau ar gam nesaf o'ch bywyd.


Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld y cam nesaf hwnnw'n gyffrous ac yn foddhaol, yn eich bywyd personol a phroffesiynol. Rydym yn byw mewn byd, mewn rhai ffyrdd sy'n troi i fod yn gynyddol gymhleth a chythryblus, ond mae cyfleoedd di-ri i chi osod eich marc ac i greu dyfodol hapus a llwyddiannus.

Bydd y sgiliau, y gwytnwch a'r cyfeillgarwch rydych chi wedi'u datblygu ym Met Caerdydd i gyd yn eich helpu i gyrraedd eich nodau, beth bynnag ydyn nhw.

Felly llongyfarchiadau; diolch am ddewis astudio ym Met Caerdydd; ac rydym yn falch iawn o'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni.

Cofiwch, nid dweud ffarwel yw'r nod heddiw; dyma'r gwrthwyneb, edrychwn ymlaen at berthynas gydol oes gyda chi, fel un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol hon. Mwynhewch eich diwrnod; a chadwch mewn cysylltiad, a rhowch wybod i ni am eich llwyddiannau yn y dyfodol hefyd!

Stephen Wordsworth CMG LVO



Dirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus

Fel Arglwydd Faer Caerdydd, mae'n fraint cael bod yn Ddirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.



Mae wedi bod yn anrhydedd fawr cael fy urddo, i nodi dechrau eich wythnos o seremonïau Graddio – achlysur arbennig mewn lleoliad gwyh.

Mae myfyrwyr ym Met Caerdydd wedi elwa o'r addysg gorau a fydd yn eich paratoi ar gyfer camu i mewn i'r byd gwaith gyda gwybodaeth a sgiliau yn eich maes astudio. Wrth i chi symud ymlaen o'r brifysgol, rwy'n gobeithio y byddwch yn dod o hyd i lwyddiant a chyflawniad yn eich llwybr gyrfa dewisol.

Fel Dirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus Prifysgol Metropolitan Caerdydd, hoffwn estyn llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu cyflawniadau ac fel Arglwydd Faer, anfonaf y dymuniadau gorau gan Ddinas a Sir Caerdydd ar gyfer eich dyfodol.

**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd
Faer Caerdydd, y Cynghorydd
Adrian Robson**

Croeso gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr y Brifysgol

Hoffwn eich llongyfarch i gyd ar gwblhau eich graddau a'r wobr y byddwch yn ei derbyn heddiw.

I ddatlu eich llwyddiant a'r gwaith caled rydych wedi'i wneud yn ystod eich gradd i gyrraedd y pwynt hwn. Nawr, gallwch edrych ymlaen yn hyderus gan wybod y bydd y wybodaeth a'r sgiliau rydych chi wedi'u hennill yn ystod eich amser ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn eich paratoi ar gyfer y dyfodol.

Gan weithio gyda'r Is-Ganghellor a holl staff y Brifysgol, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ymdrechu i gynnal perthynas ardderchog â'r corff myfyrwyr i sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y profiad gorau posibl ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Rydych wedi cael eich gwerthfawrogi fel myfyrwyr a byddwch yn parhau i gael eich gwerthfawrogi gan y Brifysgol drwy gydol eich oes. Byddwn bob amser yn eich annog i gadw mewn cysylltiad â'r Brifysgol a chynnal perthynas â ni, ble bynnag y mae bywyd yn eich tywys.

Wrth i'ch gyrfa broffesiynol ffynnu, peidiwch ag anghofio am yr achosion rydych chi'n credu ynddynt a'r newidiadau rydych chi am eirioli amdanynt mewn bywyd. Dim ond gyda hyn y gallwn greu effaith a chreu byd rydym ni ein hunain, ein teuluoedd a'n cymunedau eisiau byw ynddo.

John Taylor CBE





Croeso gan Lywydd ac Is-Ganghellor y Brifysgol

Fel Llywydd ac Is-Ganghellor, rwy'n falch iawn o'ch croesawu chi, eich teuluoedd a'ch ffrindiau i Seremoni Graddio Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae eich seremoni raddio yn benllanw ar eich holl waith caled, gwytnwch a'ch ymrwymiad i gyflawni llwyddiant. Mae fy nghydweithwyr prifysgol a minnau yn hynod falch o'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni.

Rydym wrth ein bodd bod Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi bod yn rhan o'ch taith i lwyddiant, ac rydym yn edrych ymlaen at gymryd yr amser gyda chi heddiw i nodi, drwy'r Seremoni Raddio, y cyflawniad arwyddocaol sy'n dyfarnu eich gradd.

Mae hon, heb amheuaeth, yn garreg filltir fawr, ond dim ond yn rhan o'ch taith ddysgu, a fydd yn parhau drwy gydol eich bywydau. Bydd y sgiliau, y wybodaeth a'r profiadau rydych chi wedi'u cael ym Met Caerdydd yn hanfodol i'ch helpu i lywio'r heriau sydd o'ch blaenau, ond hefyd wrth gofleidio byd o gyfleoedd.

Wrth i chi symud o fod yn ddarpar-raddedigion i raddedigion heddiw, rydym yn eich croesawu'n gynnes i'n cymuned fyd-eang o Gyn-fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Ein cyn-fyfyrwyr yw ein llysgenhadon mwyaf. Rydym yn gobeithio, wrth i chi symud ymlaen, y byddwch yn gallu rhannu hanes gyda phobl y byddwch yn cwrdd â nhw, am eich profiadau o sut beth yw astudio yma, gan eu hysbrydoli i ddechrau eu taith ei hunain gyda ni.

Ar ran pawb ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, estynnaf fy llongyfarchiadau diffuant i chi a dymunaf pob llwyddiant ar gyfer y dyfodol.

Yr Athro Rachael Langford
BA MA PhD FRSA

Gorymdaith

Mae'r Orymdaith Academaidd yn cynnwys y rhai a restrir isod a bydd yn mynd i mewn yn y drefn ganlynol:

Prif Farsial

Aelodau o Staff Academaidd

Llywydd Undeb y Myfyrwyr

S Parameswaran Namboothiri

Caplan

A Bahadur-Kutkut

Deon Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Dr B Gordon BSc (Anrh) MSc TAR PhD FHEA

Deon Dros Dro Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

Dr C Hannigan-Davies Bed, MSc PhD SFHEA MBCS CITP MAPM

Deon Dros Dro Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Dr H Wiltshire, BSc, PhD, SFHEA

Deon Dros Dro Ysgol Dechnolegau Caerdydd

Yr Athro J T Platts BEng MSc PhD CEng FIET MInstMC

Deon Ysgol Reolaeth Caerdydd a Dirprwy Is-Ganghellor Busnes, Ymgysylltu Byd-eang a Dinesig

Yr Athro D J Brooksbank BSc MSc PhD PGCE FHEA CCMi FRSA FLSW

Deon Addysgu a Dysgu

Yr Athro J Longville BA PGCE MSc

Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi

Yr Athro S Hanton BA MSc PhD FAASP

Ysgrifennydd y Brifysgol

R Davies MSc

Dirprwy Is-Ganghellor a Phrofost

Yr Athro K Thirlaway BSc PhD PFHEA HCPC

Llywydd ac Is-Ganghellor

Yr Athro R Langford BA MA PhD FRSA

Dirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus Prifysgol Metropolitan Caerdydd Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer Caerdydd Cyngorydd

Cyngorydd A Robson

Cadeirydd y Llywodraethwyr

J Taylor CBE

Canghellor

S Wordsworth CMG LVO



Trefn y Seremoni

Gorymdaith Mynediad

Agoriad Ffurfiol y Seremoni

Anrechiad y Llywydd a'r Is-Ganghellor

Cyflwyno'r Graddedigion

Derbyn y graddedigion i'w gradd

Yr anerchiad terfynol

Cau'r seremoni yn ffurfiol

Gadael yr Orymdaith

Cyflwyno Gwobrau

Bydd graddedigion yn cael eu cyflwyno gan Ddeon yr Ysgol briodol neu'r enwebai dynodedig. Bydd myfyrwyr sydd wedi dewis derbyn eu graddau cychwynnol yn cael eu cyflwyno yn ôl eu henwadau dyfarniadau, gan y Cyflwynydd a fydd yn dweud: *"Llywydd ac IsGanghellor (neu enwebai), cyflwynaf i chi fyfyrwyr sydd wedi derbyn dyfarniad..."*

Mae'r Gweithredwyr Llywyddol yn derbyn graddedigion drwy ddweud: *"Yn unol â'r awdurdodau a ymddiriedwyd ynof gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd, rwy'n eich derbyn i'ch dyfarniadau ac i holl freintiau'r dyfarniadau hynny."*

Gwobr Cymrawd Anrhydeddus

Catryn Ramasut

Mae Catryn Ramasut yn arweinydd strategol ac yn ymarferydd cyfryngau entrepreneuraidd, gyda dros 25 mlynedd o brofiad o drawsnewid diwydiannau creadigol a sefydliadau celfyddydol. Mae Catryn, a aned yng Nghaerdydd, o dras gymysg a'n siaradwr Cymraeg, yn dod â phersbectif nodedig i dirwedd ddiwylliannol esblygol Cymru.

Fel Cyd-sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni cynhyrchu arobryn, le le Productions, cynhyrchodd Catryn ffilmiau clodwiw gan gynnwys 'American Interior' a 'Rockfield: The Studio on the Farm', ochr yn ochr â chynnwys teledu a gydnabyddir gan feirniaid megis 'Black & Welsh'. Yn fwyaf diweddar, cyd-gynhyrchodd 'Brides', a gafodd ei ddarlledu am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Sundance 2025, gan arddangos talent Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Mae Catryn yn cynrychioli Cymru yng Nghyngor Diwydiannau Creadigol yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gwasanaethodd fel Cadeirydd cyntaf Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Mae hi'n gyn-aelod hirdymor o fwrdd Canolfan Gelfyddydau Chapter, ac yn ddiweddar fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol, S4C. Yn ei rôl bresennol fel Cyfarwyddwr y Celfyddydau yng



Nghyngor Celfyddydau Cymru, mae hi'n darparu arweinyddiaeth strategol ar draws y sector, gan hyrwyddo hygyrchedd a rhagoriaeth greadigol.

Yn eiriolwr angerddol dros amrywiaeth a chynhwysiant diwylliannol, mae Catryn wedi dangos ei gallu i ddarparu cyfeiriad strategol sy'n meithrin twf, wrth agor cyfleoedd i leisiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiannau creadigol. Wedi ymrwymo i gryfhau'r sector celfyddydau yng Nghymru, mae hi'n cyfuno sensitifrwydd diwylliannol ag arloesedd strategol i lunio gweledigaeth flaengar sy'n meithrin creadigrwydd ac yn arddangos talent Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Gwobr Cymrawd Anrhydeddus

Matthew Jones

Mae Matt Jones yn entrepreneur o Gymru sydd wedi ennill sawl gwobr. Yn wreiddiol o Gasnewydd, ac wedi goresgyn ddechrau heriol mewn bywyd, gadawodd Matt yr ysgol yn 14 oed heb unrhyw TGAU a chanfu ei hun yn byw mewn fflat un ystafell a ariannwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bellach, Matt yw sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol cwmni Hysbysebu a Marchnata Rebel Lion, wedi'i leoli yng Nghaerdydd gyda swyddfeydd yn Llundain, Manceinion a Dinas Efrog Newydd – gan weithio gyda chleientiaid proffil uchel gan gynnwys Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Britvic, London Palladium a Marshall Arts Entertainment. Cyflawnodd y cwmni drosiant o saith ffigur yn ei ail flwyddyn.

Ar ôl iddo weithio mewn swyddi uwch yn niwydiant hysbysebu'r DU, sefydlodd Matt ei asiantaeth hysbysebu greadigol gyntaf, S3 Advertising, yn 2011. Tyfodd i fod yn fusnes cenedlaethol gwerth miliynau o bunnoedd a werthwyd drwy bryniant rheolwyr ym mis Hydref 2019.

Yn 2021, o ganlyniad i'w dawn entrepreneuraidd, fe ymddangosodd ar Dragons' Den y BBC, lle sicrhaodd fuddsoddiad ar gyfer a chodi proffil ei frand gofal croen, MESOA. Rhoddodd ei ymddangosiad ar y sioe gyfle iddo



drafod iechyd meddwl dynion hefyd, ar ôl cael trafferth ei hun dros y blynyddoedd.

Mae Matt wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol, gan gynnwys Gwobr Entrepreneur Prydain Fawr y Flwyddyn ar gyfer y Diwydiant Creadigol yn 2017, 2018 a 2019, yn ogystal â gwobrau diwydiant a gyhoeddwyd gan The Drum a Gwobrau Digidol RAR.

Bellach, yn byw gyda'i deulu ym Mro Morganwg, mae Matt yn mwynhau cefnogi achosion sy'n cyd-fynd â'i werthoedd; gan gynnwys blwyddyn yn gwirfoddoli i Gymdeithas Bocsio Amatur Cymru fel cyfarwyddwr cyfathrebu a phartneriaeth rhwng ei frand, MESOA Skincare, a Broctors, gan helpu i dorri'r stigma ynghylch iechyd meddwl dynion.



Gwobr Cymrawd Anrhydeddus

Elizabeth Johnson

Mae Elizabeth Johnson wedi cystadlu yn y gemau paralympaidd, yn sylwebydd cyfryngau a menyw fusnes llwyddiannus.

Mae Elizabeth, sy'n nofiwr dros Brydain, wedi iddi ennill medalau aur yn y Gemau Paralympaidd, Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol (IPC) Pencampwriaethau y Byd a Phencampwriaethau Ewrop.

Ers ymddeol fel athletwr, mae Elizabeth wedi mynd ymlaen i gael gyrfa lwyddiannus fel sylwebydd cyfryngau – gan weithio fel cyflwynydd ar gyfer Gemau Paralympaidd Paris 2024 a sylwebydd chwaraeon i'r BBC a Channel 4.

Mae Elizabeth hefyd yn aelod o fwrdd Chwaraeon Anabledd Cymru, a mentor athletwr ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuencid ac Ymddiriedolaeth y Fonesig Kelly Holmes.

Yn wreiddiol o Gasnewydd, mae Elizabeth bellach yn rheolwr gyfarwyddwr a llysgennad cleientiaid The Ability People - cwmni cyflogaeth arbenigol sy'n anelu at annog cyflogaeth i bobl sydd ag anableddau. Cyd-sefydlodd y sefydliad yn 2018 ar ôl darganfod mai 30% yw'r bwlch cyflogaeth anabledd yn y DU oedd.



Ers hynny, mae ei gwaith wedi cefnogi busnesau blaenllaw, gan gynnwys yr AA, HSBC a Maes Awyr Heathrow, i greu gweithleoedd mwy hygyrch a theg.

Ochr yn ochr â'i gwaith mewn sylwebaeth yn y cyfryngau a mentrau elusennol, mae Elizabeth yn siaradwr mewn digwyddiadau corfforaethol. Yn byw gyda pharlys yr ymennydd, mae'n rhannu ei thaith bersonol ysbrydoledig, gan gynnig mewnwelediad i sut mae'r heriau y mae wedi'u hwynebu wedi siapio ei gwytnwch a'i gyrro.

Cyn sefydlu The Ability People, a arweiniodd at Elizabeth yn cael ei henwi'n un o 100 Menywod y BBC yn 2018, roedd Elizabeth hefyd yn gynhyrchydd gweithredol i Whisper, cwmni cyfryngau blaenllaw yng Nghaerdydd.

Dydd Llun 14 Gorffennaf 2025 10.00yb

Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Bethan Gordon, Deon Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd John Taylor CBE, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

Dydd Llun 14 Gorffennaf 2025 1.30yp

Ysgol Dechnolegau Caerdydd ac Ysgol Reoli Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Katie Thirlaway, Dirprwy Is-Ganghellor a Phroffost yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Yr Athro Jon Platts, Deon Ysgol Dechnolegau Caerdydd a'r Athro David Brooksbank, Deon Ysgol Reolaeth Caerdydd a Dirprwy Is-Ganghellor Busnes, Ymgysylltu Byd-eang a Dinesig, fydd yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Katie Thirlaway, Dirprwy Is-Ganghellor a Phroffost yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd John Taylor CBE, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

A close-up photograph of a young woman with long dark hair, wearing a black graduation gown over a pink top. She is laughing heartily, with her mouth wide open and eyes closed. The background is blurred, showing other people in a crowd.

Enillydd

Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
Gwobr y Deon 2025

Rudaina Murshed Chowdhury

Enillydd

Ysgol Dechnolegau Caerdydd
Gwobr y Deon 2025

Yana Lytvyn

Dydd Mawrth 15 Gorffennaf 2025 10.00yb


Ysgol Reoli Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd yr Athro David Brooksbank, Deon Ysgol Reolaeth Caerdydd a Dirprwy Is-Ganghellor Busnes, Ymgysylltu Byd-eang a Dinesig, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd y Canghellor, Stephen Wordsworth CMG LVO, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

Dydd Mawrth 15 Gorffennaf 2025 1.30yp

Ysgol Reoli Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd yr Athro David Brooksbank, Deon Ysgol Reolaeth Caerdydd a Dirprwy Is-Ganghellor Busnes, Ymgysylltu Byd-eang a Dinesig, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd y Canghellor, Stephen Wordsworth CMG LVO, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

A group of five graduates in black gowns and yellow stoles are celebrating, throwing their caps into the air. They are standing in front of a large, metallic, riveted sign that spells out 'UNIVERSITY' in large, stylized letters. The scene is bright and festive.

Enillydd

Ysgol Reoli Caerdydd
Gwobr y Deon 2025

Finn Musgrove

Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2025 9.45yb

Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Sheldon Hanton, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Huw Wiltshire, Deon Dros Dro Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Sheldon Hanton, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd y Canghellor, Stephen Wordsworth CMG LVO, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni yn ffurfiol, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2025 12.30yp

Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd yr Athro Katie Thirlaway, Dirprwy Is-Ganghellor a Phrofost, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd y Canghellor, Stephen Wordsworth CMG LVO, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2025 3.00yp

Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Huw Wiltshire, Deon Dros Dro Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd y Canghellor, Stephen Wordsworth CMG LVO, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

Enillydd

Ysgol Chwaraeon a
Gwyddorau Iechyd Caerdydd
Gwobr y Deon 2025

Omer Hagomer

Enillydd

Ysgol Chwaraeon a
Gwyddorau Iechyd Caerdydd
Gwobr y Deon 2025

Holli Mitchell

Dydd Iau 17 Gorffennaf 2025 10.00yb

Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd Dr Bethan Gordon, Deon Gweithredol Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Cecilia Hannigan-Davies, Deon Dros Dro Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd Dr Bethan Gordon, Deon Gweithredol Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd John Taylor CBE, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

Dydd Iau 17 Gorffennaf 2025 1.30yp

Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Jon Platts, Deon Gweithredol Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Cecilia Hannigan-Davies, Deon Dros Dro Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Jon Platts, Deon Gweithredol Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, yn derbyn y graddedigion.
- Bydd John Taylor CBE, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.



Enillydd

Ysgol Addysg a Pholisi
Cymdeithasol Caerdydd
Gwobr y Deon 2025

Dylan Caswell

Croeso i Gymuned Graddedigion Met Caerdydd



**Llongyfarchiadau ar gwblhau eich astudiaethau!
Rydych chi'n ymuno â chymuned fyd-eang o gyn-fyfyrrwyr
Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

Er mwyn eich diweddaru â'r holl newyddion a'r diweddariadau am Met Caerdydd, rydych wedi'ch cofrestru ar ein cronfa ddata. Mae gennych hefyd fynediad at ystod o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- ✓ Gostyngiad i gyn-fyfyrrwyr ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig cymwys – edrychwn ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf
- ✓ Cymorth gyrfaoedd ar ôl graddio
- ✓ Aelodaeth campfa a chwaraeon gostyngol
- ✓ Mynediad i ganolfannau dysgu ar y campws

Mynediad i'ch cyfrif: **alumni.cardiffmet.ac.uk**

Gallwch hefyd e-bostio **alumni@cardiffmet.ac.uk**

Edrychwn ymlaen at glywed am eich llwyddiannau yn y dyfodol!

Cofrestrwch a chadwch eich manylion yn gyfredol:
www.cardiffmet.ac.uk/alumni



Eich cam nesaf

Gallech fod yn gymwys ar gyfer Gostyngiad Cyn-fyfyrrwyr Met Caerdydd. *Ewch i'n gwefan am fanylion llawn.*



Llongyfarchiadau gan bawb ym Met Caerdydd ar raddio.

Mae'n benllanw ar eich gwaith caled a'ch ymroddiad, ac yn gyflawniad gwych gobeithiwn y byddwch chi'n mwynhau ei ddathlu gyda ffrindiau, teulu ac anwyliaid.

Os ydych chi'n dechrau meddwl am beth sydd nesaf, mae'n bosib y bydd astudiaeth ôl-raddedig neu ymchwil bellach yn rhywbeth rydych chi wedi'i ystyried. Trwy barhau â'ch taith academiaidd gyda ni, byddwch yn rhan o gymuned ôl-raddedig ac ymchwil sy'n tyfu gyda dros 3,000 o fyfyrwyr o bob cwr o'r byd. Bydd ein rhaglenni yn datblygu eich gwybodaeth pwnc arbenigol ymhellach, yn gwella eich rhagolygon gyrfa ac yn darparu sbardun ar gyfer astudio pellach.

Darganfyddwch fwy yma:

www.cardiffmet.ac.uk/postgraduate



Diolch

Hoffai Prifysgol Metropolitan ddiolch i'r noddwyr canlynol:

Cyfrifeg ACCA	Penseiri HLM
Arcade Campfa	Sefydliad Gwyddoniaeth Biofeddygol
Barbara Wilding	Teledu Darlledu Chwaraeon Met
Blue Self Storage	Morgan Hall
Cangen Cymru i Gymdeithas Seicolegol	Natalie Webb
Prydain	Gwasg Prifysgol Rhydychen
Sefydliad Siartredig Technolegwyr	Potclays
Pensaernïol (CIAT)	Penseiri Rio
Sefydliad Tai Siartredig Cymru CIAT	S A Brain
(Cymru)	Steven Harding
Grŵp AspirATion	Cymdeithas Twristiaeth mewn Addysg
Dylan Rowlands	Uwch
Ede & Ravenscroft	Cymdeithas Frenhinol Bioleg
Eversheds Sutherland	Canolfan Mileniwm Cymru
Graham Paul	Zoe Pieris

Y teuluoedd a'r ffrindiau sy'n rhoi gwobrau er cof am:

Alan Barrett-Danes	Mike Wadsworth
Bert Jones	Mrs Robert Picton
Causero	Neville Gaunt
David Leonard	Non Thomas
Dilys Price	Non-Lane
Gareth Jones	Rachel Stickler
Helen Gregory	Ray Newberry
John Dobson	Ria Blakeman
Lavinia Bletchley	Richard Morris
Louise Fielding	Susan Clease



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Dilynwch ni @metcaerdydd



Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y
wybodaeth yn y rhaglen hon pan gafodd ei chyhoeddi.